# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 21 TACHWEDD 2019

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Roberts ac Elfed Roberts.

**Aelodau Cyfetholedig**: Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Edgar Owen.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Llyr B.Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:**
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Colin Morris (Rheolwr Cefnogi Busnes)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr)
Dafydd L.Edwards (Pennaeth Cyllid)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Hefin Owen (Cyfrifydd Grŵp)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Ellen Rowlands (Rheolwr Cynllun TRAC)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr:- Beth Lawton, Dewi Owen, Mair Rowlands a Gareth Williams.
Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru) a David Healey (ATL)
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn yr eitemau a ganlyn am y rhesymau a nodir isod:-

- Eitem 6 - Cefnogi Busnesau Gwynedd i Ymateb i Brexit - oherwydd bod ei fab yn gyd-awdur yr adroddiad. Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.
- Eitem 8 – Amlinelliad o'r Cynllun TRAC yng Ngwynedd – oherwydd bod ei ferch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r gwasanaeth. 'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3 MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2019 fel rhai cywir.

## 5. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Economi yn manylu ar y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma o ran datblygu opsiynau rheoli ar gyfer yr Hafan a Harbwr Pwllheli.

Ymhelaethodd y swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau/ sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif sylwadau'r aelodau yn codi o'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Cafwyd atebion i nifer o gwestiynau yn ystod y drafodaeth ac mae hyn wedi dyfnhau ein dealltwriaeth o'r sefyllfa ym Mhwllheli.
- Mae'r aelodau wedi pwysleisio bod sicrhau datrysiad i'r sefyllfa carthu a chael gwared â'r gwaddod i gadw'r sianel yn glir yn gwbl greiddiol i'r holl sefyllfa.
- Mae'r gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn amser bellach, ac mae angen bwrw ymlaen yn awr gyda'r achosion busnes. Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â'r costau buddsoddi posib', y cyfleoedd posib', y berthynas gyda Phlas Heli, ayyb, er mwyn codi safon a denu mwy o gwsmeriaid i'r Hafan.
- Mae angen parhau i ymgysylltu â chwmnïau lleol, ayb.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, a gofyn am ddiweddariad buan ar y Cynllun Rheoli'r Hafan a'r Harbwr (gan gynnwys yr achosion busnes) i'r pwyllgor craffu hwn.**

## 6. CEFNOGI BUSNESAU GWYNEDD I YMATEB I BREXIT

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Economi yn amlinellu sut mae'r Cyngor, a sefydliadau eraill, yn cynyddu ymwybyddiaeth busnesau o oblygiadau penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) ac yn eu cefnogi i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n deillio.

Ymhelaethodd y swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau/ sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif sylwadau'r aelodau yn codi o'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Gan fod sefyllfa Brexit yn newid yn barhaus, a neb yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd, mae'n anodd iawn rhoi sylwadau pendant.
- Fodd bynnag, mae'n glir o'r adroddiad a'r atebion a roddwyd bod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r sector busnes i wynebu heriau Brexit a bod angen i ni barhau â'r gefnogaeth yma, gan ganolbwyntio yn arbennig ar y byd amaeth a thwristiaeth a chefn gwlad, a hefyd y sector bysgota.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. CYNIGION ARBEDION YR ADRAN ADDYSG AC YSGOLION A'R ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Economi yn gwahodd y pwyllgor i graffu cynigion yr Adran Addysg ac Ysgolion a'r Adran Economi a Chymuned i ddygymod gyda'u cyfran o'r bwlch £2m posib' yng nghyllideb 2020/21, ynghyd â chynnig cynlluniau amgen i gyfarch diffyg cynlluniau arbedion cyfredol ar gyfer yr Adran Addysg.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet Addysg, y ddau Bennaeth Gwasanaeth a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Cynigion Arbedion yr Adran Economi a Chymuned

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd, er y derbynnid y byddai'r cynigion arbedion yn cael rhywfaint o effaith ar drigolion Gwynedd, bod yr Adran wedi llwyddo i leihau'r effaith gymaint â phosib'.

Cynigion Arbedion yr Adran Addysg ac Ysgolion

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd cryn bryder gan aelodau ynglŷn â dau gynnig arbed yn benodol, sef 'Integreiddio – Cynllun Datblygu Unigol (CDU)/Datganiadau' (£112,530) a chynyddu'r gymhareb disgybl / athro yn y fformiwla dyrannu (£463,900). Wedi derbyn rhywfaint o esboniad pellach am yr hyn y byddai'r naill gynllun a'r llall yn ei olygu i ysgolion y sir, nodwyd y byddai'r naill yn golygu llai o gymorth i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd ddim yn destun CDU / Datganiad a'r llall yn arwain at leihau nifer athrawon a / neu leihau niferoedd staff ategol, gan effeithio ar safonau addysgol.

Nodwyd ymhellach gan aelodau:-

- Bod yr ysgolion wedi gorfod torri nôl i'r asgwrn yn barod.
- Y dylai'r Cyngor anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn datgan anfodlonrwydd llwyr ynglŷn ag annigonolrwydd y grant, sydd wedi arwain at sefyllfa ariannol lle mae'r Cyngor yn gorfod gwneud arbedion sylweddol.
- Y dylid ail-edrych mewn mwy o fanylder ar y cynigion er mwyn gweld beth yn union sy'n cael ei argymell.
- Na all yr ysgolion wneud eu gwaith heb yr arian a bod y newidiadau'n effeithio ar forâl athrawon a phlant fel ei gilydd.
- Y dylid chwilio am arbedion yn rhywle arall.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nododd y Prif Weithredwr:-

- Eleni, am y tro cyntaf, bod gwariant y pen ar addysg yng Ngwynedd yr uchaf ymhlith holl awdurdodau gwledig Cymru, a hyd yn oed o wneud y toriadau hyn, byddai Gwynedd yn dal ar y brig.
- Y llwyddwyd i warchod y gyllideb ysgolion yn gyfan gwbl y llynedd.

- Bod y Cyngor hwn wedi bod yn llythyru, ac yn cyfarfod gyda'r Llywodraeth yn gyson, a bod y Llywodraeth yn fyw iawn i'r pryderon.
- Fel cyngor darbodus, bod rhaid cynllunio ar gyfer y posibilrwydd o orfod canfod y bwlch posib' o £2m yng nghyllideb 2020/21.
- Bod pob adran o'r Cyngor yn gwegian bellach, a rôl y pwyllgor craffu oedd penderfynu, os bydd yn ofynnol i'r Adran ddod â chynigion arbedion ymlaen, ai'r cynigion a restrwyd yn yr adroddiad, neu gynigion eraill, fyddai'n cael lleiaf o ardrawiad ar blant y sir.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod ystyriaeth ddwys wedi'i rhoi i'r holl opsiynau. Ni allai wneud argymhellion yn unman arall a'r cynlluniau gerbron oedd y rhai fyddai'n cael lleiaf o ardrawiad ar blant. Nododd hefyd y byddai'r gostyngiad yn demograffi'r cynradd a'r cynnydd yn demograffi'r uwchradd yn cael llawer mwy o effaith na'r cynigion hyn. Roedd pwysau sylweddol ar y gyllideb cludiant hefyd.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y balansau ysgolion o dros £4m gan nodi bod bwriad i'r pwyllgor hwn edrych ar ormodedd / balansau'r ysgolion. Eglurodd y Pennaeth Addysg fod gan yr Awdurdod gyfrifoldebau o ran monitro balansau a phatrymau gwariant ysgolion ac y gellid cyfarwyddo ysgolion cynradd gyda balansau dros £50,000 ac ysgolion uwchradd gyda balansau dros £100,000 i wario. Fodd bynnag, roedd balansau llawer o'r ysgolion islaw'r trothwyon hyn.

Mewn ymateb i ragor o sylwadau yn erbyn y cynigion arbedion Integreiddio a Fformiwla Dyrannu, nododd y Prif Weithredwr:-

- Bod pob adran wedi cael cyfarwyddyd i ganfod eu cyfran hwy i gyfarch y swm o £2m pe byddai angen darganfod swm o'r fath. Lle'r Pwyllgor Craffu oedd ystyried ai'r cynigion yma fyddai'n cael yr ardrawiad lleiaf, ynteu rhywbeth arall. Os oedd yn meddwl bod y cynigion gerbron yn cael ardrawiad gormodol, yna ei rôl oedd darganfod cynigion o fewn y maes Addysg gydag ardrawiad llai. Fel roedd y Pennaeth Addysg wedi egluro, byddai unrhyw gynigion eraill yn cael hyd yn oed mwy o ardrawiad ar blant y sir.
- Bod raid i'r Cyngor sefydlu cyllideb gytbwys, ac wrth i'r aelodau gytuno i godi'r Dreth Gyngor ym mis Mawrth fyddai'r cyfle i bwyso a mesur y cynnydd yn y Dreth Gyngor er mwyn osgoi gorfod gweithredu ar elfennau o'r arbedion.

Nododd aelod fod y Cyngor yn y sefyllfa sydd ohoni oherwydd amharodrwydd Llywodraeth Cymru i basio arian digonol ymlaen. Paratoi ar gyfer toriadau posib' oedd hyn ac ni allai'r Cyngor symud yn ei flaen heb wneud y paratoi yma. Byddai gwrthod y cynigion hyn, heb gynnig unrhyw awgrymiadau gwell, yn golygu bod y pwyllgor yn ymddwyn yn anghyfrifol. Yn wyneb hynny, cynigiodd yr argymhelliad ar ddiwedd yr adroddiad, sef:-

(a) Cymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol.
(b) Cymeradwyo cynllun amgen gan yr Adran Addysg a argymhellir i ddisodli dau gynllun hanesyddol sydd ganddynt nad oes modd iddynt eu gwireddu.

Gan na eiliwyd y cynnig, cynigiodd aelod arall na ddylid cymeradwyo'r toriadau ac y dylid gofyn i'r Adran Addysg ail-edrych ar y data yn fwy manwl.

Ni eiliwyd y cynnig.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai ail-edrych ar y data er mwyn gweld beth arall sy'n bosib' yn golygu galw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor craffu, ond fel roedd y Pennaeth Addysg wedi egluro, roedd y dewisiadau eraill yn mynd i gael hyd yn oed mwy o ardrawiad.

Cynigiodd aelod y dylid galw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor a gofyn i'r Adran Addysg ddod â chynlluniau amgen gerbron. Eiliwyd y cynnig.

Eglurodd y Pennaeth Addysg y byddai'n rhaid i unrhyw gynllun amgen ddod o'r ysgolion beth bynnag. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr drachefn ei bod yn iawn i gael y drafodaeth, ond bod yr Aelod Cabinet wedi dod â'r cynigion fyddai'n cael lleiaf o ardrawiad gerbron, ac y byddai'r dewisiadau eraill i gyd yn waeth, e.e. cau ysgolion, dileu cludiant ôl-16, ayb.

Eiliwyd y cynnig i dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad gyda chalon drom iawn, gan dderbyn bod yr Adran wedi ceisio canfod y dewisiadau sy'n lleihau'r effaith ar blant Gwynedd gymaint â phosib'. Mawr obeithid na fyddai'n rhaid gwneud yr arbedion hyn, ond cydnabyddid bod angen rhoi trefn mewn lle rhag ofn.

Pleidleisiwyd ar y cynnig, ond fe ddisgynnodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r sylwadau cryf sydd wedi'u gwneud a bod hynny yn mynd ymlaen i'r Cabinet. Fe gariodd y cynnig.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn mai cynigion yr Adran Economi a Chymuned i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol yw'r rhai sydd yn cael ardrawiad lleiaf ar drigolion Gwynedd.**

**(b) Nodi'r adroddiad ar gynigion yr Adran Addysg ac Ysgolion i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol, a'r sylwadau cryf sydd wedi'u gwneud, a chyfleu hynny i'r Cabinet.**

## 8. AMLINELLIAD O'R CYNLLUN TRAC YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn rhoi amlinelliad o'r Cynllun TRAC, sydd yn darparu cefnogaeth ychwanegol i gynnal plant bregus o fewn ysgolion neu eu hymgysylltu yn ôl â'u haddysg.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif sylwadau'r aelodau yn codi o'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Dymuna'r pwyllgor longyfarch yr Adran ar eu gwaith ac roedd yr aelodau yn ymfalchïo o ddeall bod bywydau plant, fyddai fel arall wedi disgyn drwy'r rhwyd, yn cael eu gweddnewid.
- Bod yr adroddiad yn amlygu'r hyn sy'n bosib' i'w wneud pan mae'r adnoddau ar gael a bod gwers yma i wleidyddion ar bob lefel.
- Bod yr adroddiad hefyd yn dangos y gwahaniaeth y gall cynllunio pwrpasol ei wneud.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. DIWEDDARIAD GWASANAETH ANGHENION DYSGU A CHYNHWYSIAD GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn rhoi diweddariad o ran datblygiad y strwythur gwasanaeth newydd a'r newidiadau deddfwriaethol fydd yn dod yn weithredol ym mis Medi 2021.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Codwyd cwestiwn gan aelod ar ran unigolyn oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod ynglŷn â sefyllfa gyllidol ysgol benodol. Gan na fyddai'n briodol trafod hynny mewn fforwm agored, awgrymwyd bod yr awdur yn cynghori'r ysgol dan sylw i gysylltu â'r adran.

Crynhodd y Cadeirydd brif sylwadau'r aelodau yn codi o'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Mae cydnabyddiaeth ymysg yr aelodau o'r gwaith manwl sy'n digwydd o fewn yr Adran.
- Derbynnir bod yna heriau, ond mae datblygiadau mawr wedi cymryd lle a chroesawir y ffaith y bydd hynny'n parhau. Hefyd, roedd y pwyllgor yn ymfalchïo o glywed bod Gwynedd gymaint ar y blaen i awdurdodau eraill yn y maes yma.
- Dymuna'r pwyllgor longyfarch yr Adran ar eu gwaith ac roedd yr aelodau yn falch iawn o ddeall bod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg i bob plentyn, waeth beth yw'r anawsterau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Ar derfyn y cyfarfod, nododd y Pennaeth Addysg fod y Rheolwr Cynllun TRAC a'r Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn gweithio o fewn y ddau faes mwyaf anodd o fewn y gwasanaeth addysg, gydag adnoddau prin, a diolchodd i'r ddwy ohonynt a'u timau am eu gwaith yn gweddnewid bywydau'r plant mwyaf bregus ac anghenus.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 3.15 y.h.

**CADEIRYDD**